CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION CYFARFOD MEHEFIN 16, 2026

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Brithdir**
**Nos Fawrth, Mehefin 16, 2026 am 7:30 o'r gloch.**

www.cyngorllanfachreth.cymru

**Presennol** Robin Jones (Cadeirydd), Gerallt Griffith, Meurig Ashton, Karen Goswell, Peredur Jenkins, Rhun Prys Jones, Emlyn Roberts, Llion Williams. Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths a Henry M. Edwards.

**1. Croeso'r Cadeirydd.** Croesawyd pawb i'r cyfarfod.

**2. Ymddiheuriadau:** Nid oedd ymddiheuriadau.
Nid oedd Llinos Evans yn bresennol i gael profiad beth sy'n cael ei wneud yn y cyfarfod a chael unrhyw wybodaeth roedd hi ei angen i wneud swydd y Clerc.

**3. Datgan diddordeb.**

Doedd neb yn datgan diddordeb.

**4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Mai 19, 2026**

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

**5. Materion yn codi o'r cofnodion Mai 19, 2026**

Eitem 6. Eitem 6c. Llythyr (11/6/2026) yn amgáu llythyr anfonodd Gerallt i Guthrie Jones a Jones yn holi a fydd Cyfreithiwr Breese Gwyndaf yn dderbyniol i gynrychioli y Cyngor Cymuned ynglŷn â'r 'Legal Charge' sydd wedi codi gyda'r Cyngor yn 'Custodian Trustee' Neuadd Bentref Lanfachreth a grant cafodd y Neuadd i wneud gwaith ar yr adeilad.

Eitem 7.d. Llythyr (7/6/2026) oddi wrth Heddlu Dolgellau yn rhoi gwybod bydd y cyfarfod yng Ngorsaf Heddlu Dolgellau ar 16/6/2026 am 10yb. Cytunodd Gerallt, Karen a Delyth i fod yn bresennol.
Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.
Roedd y tri yn bresennol yn y cyfarfod.

Eitem 7.dd. Llythyr (22/05/2026, trwy Un Llais Cymru) oddi wrth Swyddog Prosiect Adfywio Trefi (Gwynedd Ni) yn rhoi gwybod am eu Cronfa Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned Gwynedd 2026 ac yn cynnwys dogfennau. Dyddiad cau derbyn ceisiadau yw 15/6/2026.
Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Anfonwyd ar frys (14/6/2025) cais am grant. Enw'r prosiect yw

'Eisteddfa Afon Y Llan'. Cost y prosiect yw £2,172.24 am 3 picnic table recycled plastic a 2 recycled plastic medium planter oddi wrth Wynnstay (Agricultural Supplies) Ltd. Cafodd y cais ei baratoi gan Gerallt.

**6. Gohebiaeth**

a. Llythyr (20/05/2026) oddi wrth The Forestry Consultation Team ynglŷn â gwaith Forestry Manegement cafodd ei wneud gan Cyfoeth Naturiol Cymru.
Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

b. Llythyr (28/5/2026) oddi wrth Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn rhoi gwybod maent yn lansio ail ymgynghoriad cyhoeddus ar ddyfodol gwasanaethau strôc. Bydd yr ymgynghoriad yn rhedeg tan 26 Gorffennaf 2026 a bydd digwyddiadau galw heibio i'r cyhoedd yn cael ei gynnal mewn rhai lleoedd.
Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

c. Llythyr (29/5/2026) oddi wrth Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am eu hymgynghoriad ar Gynnig Ardoll Ymwelwyr Gwynedd bydd yn cau ar 15/7/20256. Amgáu mae gwybodaeth am yr ymgynghoriad.
Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

ch. Llythyr (1/6/2026) oddi wrth Mrs Ffion Edwards yn gofyn am ganiatad i ddefnyddio y cae sydd ar draws y ffordd i ysgol Llanfachreth i barcio ceir ar yr 11eg o Orffennaf. Hwyrach bydd angen y cae i hwyluso parcio ceir at achlysur priodas ei merch yn Eglwys Llanfachreth.
Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.
<u>Penderfynwyd</u> rhoi gwybod i Mrs Edwards nid oes gan y Cyngor yr hawl i ganiatau defnyddio'r cae fel lle parcio ceir oherwydd Cyngor Gwynedd yw perchenog y tir. Awgrymwyd i Mrs Edwards cysylltu ag Adran Tai ac Eiddo Cyngor Gwynedd.

d. Llythyr (2/6/2026) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd gyda rhybudd yn rhoi gwybod bydd ffordd o Dŷ Newydd Uchaf i Fryn Awel, Rhydymain ar gau ar 1/6/2016 i gerbydau er mwyn gwneud gwaith amnewid polyn. Disgwylir cwblhau'r gwaith argyfwng o fewn tri diwrnod.
Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

dd. Llythyr (10/6/2025) oddi wrth Un Llais Cymru yn amgáu cyrsiau hyfforddiant maent yn ei gynnig ym Mehefin – Medi 2026.

**7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

a. Cais cynllunio rhif NP5/54/376C. Newid defnydd o C5 (Ail Gartref) i Ddefnydd Unigryw (Sui Generis). Hafod Owen, Abergeirw.

Mae Delyth yn gwneud ymoliadau gyda APCE am fwy o wybodaeth ar y cais.

Penderfynwyd gwrthod y cais ar i sail diffyg tystiolaeth bod y 'writer's retreat' arfaethedig yn faterol wahanol i lety tymor byr.

b. Llythyr (10/6/2025) oddi wrth yr Awdurdod yn gofyn am gymorth i adolygu proffiliau anheddiadau sydd wedi'u paratoi ar gyfer anheddiadau o fewn ein cyngor cymuned (Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain) i gael gwybodaeth ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol.

Maent angen i ni gwblhau'r canlynol:

1. Adolygu'r proffil anheddiad i gael gwybod os maent yn gywir.
2. Cwblhau'r holiadur sydd ar gyfer pob anheddiad.
3. Cwblhau'r ffurflen gwasanaethau a chyfleusterau.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Penderfynwyd i'r aelodau ymateb i'r Parc ar y mater.

## 8. Materion Ariannol

a. Llythyr (21/5/2026 oddi wrth Kids Cancer Carity. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd codi'r mater yn cyfarfod mis Chwefror.

b. Llythyr (27/5/2026) oddi wrth Mr Marius Jones, Trawsfynydd, yn dangos diddordeb i wneud y gwaith o dorri gwair ar y llwybrau cyhoeddus y gymuned. Gyda chymorth Meurig i ateb cwestiynau roedd ei angen rhoddwyd gwybod iddo mai unwaith y flwyddyn bydd y gwaith yn cael ei wneud, bydd defnyddio 'strimmer' yn addas, ni fydd angen gludo'r gwair ar ôl ei dorri a geith y gwaith ei wneud ar unrhyw adeg o'r flwyddyn a bydd oriau gwaith yn 150 awr. Ei oed yw 35, mae ganddo yswiriant 'Public Liabilty' ac nid yw'n 'VAT registered'. Anfonwyd map iddo yn dangos y llwybrau sydd angen eu trin (29/5/2026). Rwy'n ddiolchgar i Delyth am gyfeiriad Mr Jones.

Llythyr ateb (31/5/2026) oddi wrth Mr Jones yn rhoi gwybod ei dyfynbris.

O dan Reoliadau Ariannol y Cyngor (rheol 11.1.g.) mae angen 3 dyfynbris (er mae hwn i gontract gwerth llai na £3,000).

Penderfynwyd:

1. newid 'unrhyw adeg o'r flwyddyn' i ddarllen 'adeg tyfiant y flwyddyn'.
2. newid y ffigwr £3,000 i £5,000 ar Reoliadau Ariannol y Cyngor (rheol 11.1.g.).
3. cael 3 dyfynbris. Gwneud ymoliadau â Tir a Choed, a Coed y Dyffryn i gael gwybod os mae ganddynt ddiddordeb i wneud y gwaith. A hefyd i'r aelodau rhoi hysbysiad (Cymraeg a Saesneg) ar Facebook am dorrwr gwair.

c. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29/5/2026: £0.17D.
Balans yn Account Rhif 61402277 ar 2/6/2026: £0.00.
Balans yn y banc ar 29/5/2026: £8,098.86.

## 9. Archwilio

a. Anfonwyd (22/5/2026) y dogfennau i'w archwilio i Gwasanaeth Archwilio Mewnol a derbyniwyd (3/6/2026) yr Adroddiad ganddynt ac fe anfonwyd ymlaen i'r aelodau.

O'r adroddiad roedd angen rhoi Adroddiad Blynyddol, Adroddiad Bioamrywiaeth a Datganiad o Daliadau i Aelodau ar ein gwefan. Anfonwyd y wybodaeth i Mr Elfed ap Gomer i roi y wybodaeth ar ein gwefan ac anfonwyd copi o'r wybodaeth i'r aelodau. Fel roedd ei angen anfonwyd y Datganiad o Daliadau i Aelodau i Archwilio Cymru ac i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau (3/6/2026).

Roedd angen newid y Ffurflen Flynyddol i egluro'r trosglwyddo arian o gyfrif rhif 6140277 i gyfrif y Cyngor. Bydd angen i'r Cadeirydd arwyddo'r Ffurflen.

<u>Arwyddodd</u> y Cadeirydd y Ffurflen.

## **<u>10. Materion yr Aelodau</u>**

## **<u>11. Adroddiad Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths</u>**

a. Anfonwyd llythyr (26/5/2026) i Huw Green, Cyfoeth Naturiol Cymru yn diolch iddo am asesu coed 'larch' yn Coed Wenallt, Hywel Dda, Rhydymain ac am fod o'r un farn a thrigolion lleol bod y coed yn beryg i deithiwyr y ffordd fawr. Mae Huw Green am gysylltu ag Adran Forestry Opps i dorri'r coed a gobeithio gwneud y gwaith ym mis Hydref. Gobeithi'r cael cyfarfod arall ar y safle mis nesaf.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Derbyniwyd llythyr (27/5/2026) o ddiolch oddi wrth Emlyn am symud ymlaen gyda'r mater a gobeithio bydd y gwaith wedi ei gwblhau cyn y gwyntoedd yr Hydref.

Llythyr (11/6/2026) oddi wrth H.G. yn rhoi gwybod bydd cyfarfod gyda chydweithwyr wythnos nesaf i drafod y gwaith torri coed ochor ffordd yn Goed y Wenallt. Wedi'r cyfarfod bydd yn trefnu cyfarfod gyda Delyth ar y safle gyda mwy o wybodaeth.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

b. Mater newydd wedi dod i law gan etholwr (Eira) – angen arwyddion gwell yn Hen Bont Brithdir gan nad yw yn glir fod y bont yn gul yn dilyn rhoi wyneb newydd ar y ffordd. - cytunodd Delyth i ofyn am asesiad diogelwch yn y lleoliad.

c. Coed y Wenallt yn ardal Hywel Dda – Huw Green o NRW wedi cysylltu ar ddau achlysur a disgwylir dyddiad i wneud y gwaith gan fod y coed ddim yn ddiogel bellach a phryder am deithwyr a cherddwyr yn y lleoliad.

ch. Mater cyflymder ceir yn ganol Rhydymain wedi ei godi eto gydag Adran Priffyrdd ac wedi ei anfon at Steffan Jones, Prif Swyddog Adran Priffyrdd Gwynedd.

d. Pont Ffatri Rhydymain. Adran Cefnffyrdd wedi ateb Delyth yn dweud –" Wedi holi yn fewnol ac ar ddallt fod y pecyn gwaith yn mynd allan i dendr haf yma, gyda'r bwriad i fod ar safle yn yr Hydref yn ôl Owen Rhys Jones" YGC 17/6/26.
Mae Delyth wedi gohebu gyda Mabon ap Gwynfor am y bont yma ar 11 a 16 /6 /26.

Er bod gwybodaeth wedi dod gan YGC bydd Delyth hefyd yn gohebu efo y Dirprwy Gweinidog Trafnidiaeth yn Llywodraeth Cymru, Mark Hooper ac aelodau seneddol Gwynedd Maldwyn.

dd. Rhoddodd Delyth adroddiad i'r Cyngor am drafferthion ffordd yn Bermo yn ystod y gwyliau hanner tymor Sulgwyn gan ganolbwyntio ar ardal Llanelltyd a Bontddu gan roi y neges fod angen gwell rheolaeth ar y goleuadau traffig yn ystod cyfnodau gwyliau cenedlaethol pan mae y llif ceir yn fwy cyson.

e. Mater diogelwch yn ardal Hufenfa Rhydymain. Yr wyf yn amgáu gohebiaeth ar y mater gan Mabon ap Gwynfor AS lleol a Gweinidog gyn Llywodraeth Cymru.

Llofnod: Dyddiad: